Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Teresa Roche
Gwasanaethau Cyfreithiol
Swyddfa Gorfodaeth Amgylcheddol
Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd
PO Box 3000
Johnstown Castle Estate
Wexford

8 Ebrill 2015

**Ymgynghoriadau ar Bolisi Gwell Rheoleiddio a Pholisi Cydymffurfio a Gorfodi**

Annwyl Teresa

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau ar eich dogfennau polisi drafft ar Gydymffurfio a Gorfodi a Gwell Rheoleiddio.

Ein diben ni yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol. Mae gennym ystod eang o rolau a chyfrifoldebau ac fel sefydliad mae angen inni weithredu mewn ffordd hyblyg i sicrhau bod pobl, busnesau a'r amgylchedd yn gallu ffynnu gyda'i gilydd. Un rôl allweddol sy'n perthyn i Cyfoeth Naturiol Cymru yw ein rôl fel rheoleiddiwr, ac rydym wedi datblygu egwyddorion sy'n arweiniad inni wrth i ni reoleiddio eraill.

O ystyried bod llawer o reoleiddwyr amgylcheddol yn wynebu pwysau ariannol ar hyn o bryd a bod y materion sy'n ein hwynebu yn gyffredin i ni, rydym yn cydnabod y gall manteision sylweddol gael eu gwireddu drwy i reoleiddwyr weithio mewn ffordd gydlynol a chydweithredol. Rydym eisoes yn rhannu gwybodaeth ac ymarfer gydag Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd drwy "Bum Asiantaeth", sydd hefyd yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon. Hefyd, erbyn hyn mae gennym rhaglen ShARE (*Shared Agency Regulatory Evidence Programme*). Diben y rhaglen hon yw creu fframwaith hyblyg i gydweithio ar dystiolaeth ym maes rheoleiddio. Ei hamcan yw darparu tystiolaeth wedi'i rheoleiddio o angen cyffredin mewn diwydiant, lle mai gweithio ar sail y Deyrnas Unedig yw'r patrwm gwaith mwyaf effeithlon ac effeithiol.

Wrth ystyried eich dogfennau polisi drafft ar Well Rheoleiddio a Chydymffurfio a Gorfodi, mae'n amlwg bod ein pwerau gorfodi yn debyg at ei gilydd a nodwn fod ein hegwyddorion rheoleiddio yn dilyn trywydd tebyg. Rydych chithau a ninnau wedi ystyried ein cyfrifoldebau rheoleiddio ac ymarfer da ar sail adroddiadau Hampton (2005) a Macrory

(2006)[1] ac yn adeiladu ar ofynion Cod y Rheoleiddwyr[2] sy'n darparu fframwaith clir, hyblyg, wedi'i seilio ar egwyddorion.

Ar sail tystiolaeth, ein nod yw defnyddio'r dulliau mwyaf effeithio wrth weithio gydag eraill, yn cynnwys canfod a datblygu ffyrdd newydd o weithio – i amddiffyn pobl, yr amgylchedd, a busnes. Gallwn fanteisio ar amrywiaeth eang o arfau, nad ydynt wedi'u cyfyngu i'r dulliau gwaith hynny a allai gael eu hystyried yn ddulliau rheoleiddio mwy traddodiadol. Rydym hefyd yn ceisio defnyddio arfau a dulliau gweithredu eraill, fel rhai economaidd a gwirfoddol, a defnyddio gwybodaeth a rhannu gwybodaeth. O wneud hyn oll, ynghyd ag ymgysylltu'n gynnar a gwneud gwaith atal, mae gennym amrywiaeth eang o ffyrdd i'w defnyddio er mwyn gwireddu'r canlyniadau rydyn ni am eu cyflawni mewn ffordd effeithiol.


Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arfer dull gweithredu sy'n seiliedig ar wasanaethau ecosystemau ac rydym yn diffinio'n gwaith rheoleiddio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig, a'r hyn mae hynny'n ei olygu o ran gwireddu ein canlyniadau. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn ein Dogfennau Polisi, sydd i'w gweld ar ein gwefan o dan yr adrannau Egwyddorion Rheoleiddio (http://naturalresources.wales/how-we-regulate-you/regulatory-principles/?lang=cy) a Chyfrifoldebau Rheoleiddio (http://naturalresources.wales/how-we-regulate-you/regulatory-responsibilities/?lang=cy).

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried y dystiolaeth sydd ar gael i'r diben posibl o gyflwyno rheolau rhwymo cyffredinol yng Nghymru. Byddai'r rhain yn darparu arf ychwanegol a fyddai'n ein galluogi i ymdrin yn fwy cymesur â gweithgareddau risg is. Credwn y gallai rheolau rhwymo cyffredinol fod yn gymorth i wireddu amryw o ganlyniadau a helpu i leihau'r baich rheoleiddiol ac ariannol ar fusnesau. Byddent yn sefydlu safonau gofynnol i weithgareddau cyffredin, risg isel a gyflwynwyd drwy reoleiddio ac yn creu llinell sylfaen statudol o arferion amgylcheddol da. Mae'r diagram isod yn dangos sut rydym yn rhagweld y bydd rheolau rhwymo cyffredinol yn asio â dulliau rheoli sydd wedi ennill eu plwyf. Byddwn yn rhannu'r model terfynol a gaiff ei gynhyrchu yn dilyn unrhyw argymhellion a wneir yn unol ag adolygiad Hampton. Byddai'n fuddiol gwybod a ydych chi'n ystyried unrhyw fodelau tebyg.

---

[1] Adolygiad Hampton: 'Reducing Administrative Burdens: Effective Inspection and Enforcement' 2005, Richard Macrory 'Regulatory Justice; Making Sanctions Effective' 2006.

[2] Regulators' Code 6 Ebrill 2014, Cymru a Lloegr (wedi disodli The Regulators' Compliance Code)





Byddai gennym ddiddordeb hefyd i ddeall sut, ar sail eich egwyddor mai'r sawl sy'n llygru sy'n talu, yr ydych yn ymdrin â gweithgareddau anghyfreithlon, yn arbennig y rhai sy'n gweithredu y tu allan i'w trwydded a hefyd y rhai nad oes ganddynt drwydded i weithredu.

Gobeithiwn y bydd y sylwadau a wnaed gennym uchod o ryw ddefnydd ichi.  Byddem yn hapus i ddarparu unrhyw fanylion pellach pe bai hynny o gymorth ichi.

Simon Neale yw Rheolwr Rheoleiddio'r Dyfodol yn Cyfoeth Naturiol Cymru, a byddai'n croesawu unrhyw drafodaeth bellach â chi.

Yn gywir



ar ran
Isobel Moore
Pennaeth Busnes, Rheoleiddio ac Economeg